



Canllawiau Statudol: Cofrestr Gontractau



Rhagair

1. Mae adran 40 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (Deddf PGChC) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio greu, cynnal a chyhoeddi Cofrestr Gontractau (adran 40(1)).
2. Mae adran 40(2) yn esbonio bod yn rhaid i'r Gofrestr hon gynnwys contractau cyhoeddus, a ddiffinnir gan Weinidogion Cymru gan reoliadau, a elwir yn "gontractau cofrestradwy".
3. Mae is-adran 40(3) yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r Gofrestr Gontractau ei chynnwys mewn perthynas â phob contract cofrestradwy. Hynny yw:
 - a. dyddiad dyfarnu'r contract;
 - b. enw'r contractwr;
 - c. cyfeiriad prif fan busnes y contractwr;
 - d. pwnc y contract;
 - e. amcangyfrif o werth y contract,
 - f. y dyddiad cychwyn;
 - g. y dyddiad terfynu y darperir ar ei gyfer neu, pan na fo dyddiad wedi ei bennu, ddisgrifiad o'r amgylchiadau y bydd y contract yn terfynu odanynt;
 - h. hyd unrhyw gyfnod y gellir estyn y contract;
 - i. unrhyw wybodaeth arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.
4. Pwrpas y Gofrestr Gontractau yw cynyddu tryloywder y contractau cofrestradwy y mae Awdurdod Contractio yn eu dyfarnu trwy ddarparu data ar bob contract cofrestradwy.
5. Mae is-adran 40(4) yn caniatáu i Awdurdod Contractio atal gwybodaeth rhag cyhoeddi cofnod, neu ran o gofnod, yn y gofrestr o gontractau cofrestradwy, os yw'n ystyried y gallai cyhoeddi'r wybodaeth honno fod yn niweidiol.
6. Mae is-adran 40(5) yn nodi mai dim ond ar ôl i'r contract y mae'r wybodaeth yn cyfeirio ato ddod i ben neu gael ei derfynu y gellir dileu cofnod sy'n ymwneud â chontract cofrestradwy o'r Gofrestr Gontractau.

Beth yw contractau cofrestradwy?

7. Mae rheoliad 5 o Reoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026 ("y Rheoliadau"), yn diffinio "contract cofrestradwy":



—(1) At ddibenion adran 40(2) o DPGChC 2023 (cofrestr gontractau), mae contract cofrestradwy yn unrhyw gontract o fath y cyfeirir ato ym mharagraff (2) oni fydd paragraff (3) yn gymwys.

(2) Y mathau o gontractau yw—

(a) contract rhwng un neu ragor o weithredwyr economaidd ac un neu ragor o Awdurdodau Contractio, sydd â'r amcan o gyflawni gweithiau, cyflenwi cynhyrchion neu ddarparu gwasanaethau;

(b) cytundeb fframwaith.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys os yw contract —

(a) â gwerth amcangyfrifedig llai na gwerth contract hysbysadwy sydd o dan y trothwy, neu

(b) yn gontract eithriedig.

8. Mae'r Rheoliad hwn wedi'i ddrafftio i sicrhau bod cysondeb rhwng Deddf PGCh a Deddf Caffael 2023 lle bo hynny'n ymarferol.
9. Yn y bôn mae hyn yn golygu os yw Deddf Caffael 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Contractio gyhoeddi Hysbysiad Manylion Contract, yna mae'r contract hwnnw'n "gontract cofrestradwy" yn Neddf PGChC. Felly, mae angen cynnwys contractau cofrestradwy yr ymrwymwyd iddynt o Ddeddf Caffael 2023 yn dod i rym nad ydynt wedi dod i ben neu wedi'u terfynu, yn y Gofrestr Gontractau.

Sut gellir cyhoeddi'r gofrestr gontractau?

10. Rhaid i Awdurdodau Contractio gyhoeddi Cofrestr Gontractau sy'n bodloni gofynion adran 40 o'r Ddeddf PGChC a'r Rheoliadau. Gellir cyflawni hyn drwy'r Awdurdod Contractio yn cyhoeddi Cofrestr Gontractau ar ei wefan sefydliadol, ar yr amod ei bod yn cydymffurfio ag adran 40 o'r Ddeddf PGChC a'r Rheoliadau cysylltiedig.
11. Dylai'r Gofrestr Gontractau ddarparu gwybodaeth ar ffurf y gall aelod o'r cyhoedd gael gafael arni a'i dehongli'n hawdd heb fod angen manylion mewngofnodi nac unrhyw gyfyngiad mynediad arall.
12. Mae plattfform digidol Cymru (GwerthwchiGymru) yn darparu swyddogaeth o'r enw "cofrestr gontractau", y gall Awdurdodau Contractio ei defnyddio i gydymffurfio â Deddf PGChC a Rheoliadau mewn perthynas â'r Gofrestr Gontractau, sy'n golygu na fydd angen cynnal cofrestr ar wahân.



13. Os defnyddir platfform digidol Cymru i greu'r gofrestr gontractau, dylid darparu dolen i'r gofrestr gontractau sydd ar gael ar Blatfform Digidol Cymru ar wefan yr Awdurdod Contractio hefyd.
14. Mae'r swyddogaeth cofrestr gontractau yn GwerthwchiGymru yn gweithio drwy dynnu gwybodaeth yn awtomatig o'r Hysbysiad Manylion Contractau ("CDN") a gyhoeddwyd. Bydd yr wybodaeth yn y CDN (ar yr amod ei bod wedi'i chwblhau'n gywir ac yn cydymffurfio) yn bodloni gofynion data adran 40(3) o'r Ddeddf PGChC. Trwy ddefnyddio'r swyddogaeth cofrestr gontractau yn GwerthwchiGymru, bydd y baich gweinyddol ar Awdurdodau Contractio yn cael ei leihau, ac yn atal yr angen i ddyblygu gwybodaeth a ddarperir eisoes o dan Ddeddf Caffael 2023.
15. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r swyddogaeth cofrestr gontractau yn GwerthwchiGymru yn cael ei rhoi ymlaen yn awtomatig. Rhaid i gynrychiolydd o'r Awdurdod Contractio sy'n 'rheolwr prynwr' droi'r swyddogaeth ymlaen ar gyfer y sefydliad. Bydd y gofrestr gontractau wedyn yn cael ei bwydo'n awtomatig o'r Hysbysiadau Manylion Contract sydd wedi'u cyhoeddi gan yr Awdurdod Contractio.
16. Dylai Awdurdodau Contractio fod yn ymwybodol y bydd y gofrestr gontractau yn breifat i ddechrau, ac y bydd angen iddynt sicrhau eu bod wedi actifadu eu cofrestr contractau cyhoeddus. Mae gwneud y gofrestr gontractau yn gyhoeddus yn ofyniad o dan Ddeddf PGChC, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau "gyhoeddi" cofrestr gontractau (adran 40(1) o Ddeddf PGChC).
17. Bydd yn rhaid i gynrychiolydd yr Awdurdod Contractio, sydd â'r lefel briodol o fynediad (y "Rheolwr"), gael mynediad i'r dudalen 'Diwygio Manylion Prynwr' a dewis y botwm "Ymlaen" o dan 'Cofrestr Contractau Cyhoeddus' i sicrhau bod cofrestr yr awdurdod yn gyhoeddus.
18. Gall unrhyw un chwilio'r gofrestr contractau cyhoeddus hon. Nid oes angen cofrestru ar GwerthwchiGymru er mwyn cael mynediad at y gofrestr gontractau.

Cynnal y Gofrestr Gontractau

19. Unwaith y bydd Awdurdod Contractio wedi cyhoeddi ei Gofrestr Gontractau ar GwerthwchiGymru (neu ar wefan ei sefydliad), rhaid cynnal y gofrestr hon yn unol ag adran 40(1) o Ddeddf PGChC, sy'n gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau i gynnal y Gofrestr.



20. Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Contractio adolygu'r Gofrestr Gontractau yn rheolaidd i sicrhau:

- a. bod y contractau cofrestradwy perthnasol wedi'u hychwanegu ati,
- b. bod y manylion ar gyfer pob contract cofrestradwy yn gywir,
- c. pan fo angen diweddarau gwybodaeth yn erbyn contract cofrestradwy, rhaid i'r awdurdod ddiwygio'r cofnod priodol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

21. Gall diwygio cofnod gynnwys, (ond heb fod yn gyfyngedig i): diwygio gwerth y contract, diweddarau'r dyddiad gorffen (yn enwedig os yw'r cyfnod estyniad wedi'i weithredu), diweddarau cyfeiriad prif fan busnes y contractwr ac ati.

22. O ran y swyddogaeth "cofrestr gontractau" yn GwerthwchiGymru, dim ond defnyddwyr sydd â'r caniatâd priodol all ddiwygio contractau ar y gofrestr. Bydd defnyddwyr angen mynediad "Gweinyddwr Contract" y gellir ei alluogi ar gyfer pob proffil defnyddiwr gan ddefnyddiwr yn yr Awdurdod Contractio sydd â mynediad "Rheolwr".

23. Unwaith y bydd gan ddefnyddwyr fynediad "Gweinyddwr Contract", gallant gael mynediad at holl gontractau'r awdurdod ar y gofrestr a'u diwygio yn ôl yr angen. Gallant hefyd ddyrannu statws "Gweinyddwyr ar gyfer y contract hwn" i ddefnyddwyr eraill sy'n caniatáu i ddefnyddwyr o'r Awdurdod Contractio ddiwygio contractau penodol.

24. Sylwch mai'r "prif fan busnes" yw cyfeiriad y contractwr fel y nodir yn yr Hysbysiad Manylion Contract.

Atal neu ddileu gwybodaeth ar y gofrestr

25. Caiff Awdurdodau Contractio atal cyhoeddi cofnod, neu ran o gofnod (sy'n ymwneud â chontract cofrestradwy) yn y Gofrestr Gontractau, os ydynt o'r farn y gallai cyhoeddi'r wybodaeth honno fod yn niweidiol (adran 40(4)):

'(40)(4) Ond caiff awdurdod atal cyhoeddi cofnod, neu ran o gofnod, yn y gofrestr os yw'n ystyried y byddai ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi—

(a) yn rhwystro gorfodi'r gyfraith neu fel arall yn groes i fudd y cyhoedd,



(b) yn rhagfarnu buddiannau masnachol unrhyw berson,

(c) yn rhagfarnu cystadleuaeth deg rhwng gweithredwyr economaidd, neu

(d) yn datgelu cyfeiriad preswyl (yn achos yr wybodaeth y cyfeirir ati yn is-adran (3)(c)).

26. Os yw'r Awdurdod Contractio yn penderfynu cyfyngu ar yr wybodaeth y mae'n ei chyhoeddi mewn perthynas â chontract cofrestradwy yn y Gofrestr Gontractau – neu, os yw'n penderfynu peidio â chyhoeddi cofnod sy'n ymwneud â chontract cofrestradwy – dylai gadw cofnod o'i benderfyniad. Dylai'r cofnod hwn:

- a. gynnwys y rhesymeg dros atal cyhoeddi rhan o'r data neu'r holl ddata sy'n ymwneud â chontract cofrestradwy,
- b. dyfynnu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol y tu allan i'r Ddeddf PGChC a ddylanwadodd ar y penderfyniad (ee Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU), Deddf Caffael 2023 ac ati),
- c. nodi a oes bwriad i adolygu'r rhesymeg yn ddiweddarach, er mwyn gwirio a ellir cyhoeddi cofnod mewn perthynas â'r contract cofrestradwy – yn dibynnu ar newid yn yr amgylchiadau; neu, os yw rhan o gofnod eisoes wedi'i gyhoeddi, y gellir cynnwys mwy o fanylion,
- d. cynnwys enwau a theitlau swydd yr unigolion a gymeradwyodd y penderfyniad.

27. Nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysfawr a dylai Awdurdodau Contractio fod yn ymwybodol y gellid herio atal rhan o'r wybodaeth neu'r holl wybodaeth ar gontract cofrestradwy, neu geisio rhagor o wybodaeth drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Contractio yw sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir mewn perthynas â chyhoeddi rhan o'r data, neu'r holl ddata ar gontract cofrestradwy yn y Gofrestr Gontractau, yn cydymffurfio ag unrhyw un o'r rhesymau a nodir yn adran 40(4) o Ddeddf PGChC. Mae'r Awdurdod Contractio hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y gymeradwyaeth derfynol ar gyfer unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei darparu gan unigolion sydd â'r awdurdod priodol, a/neu lefelau clirio o fewn eu sefydliad.

28. Os ydynt yn defnyddio'r swyddogaeth cofrestr gontractau yn GwerthwchiGymru, wrth ddewis cyfyngu ar faint o wybodaeth a ddarperir ar gyfer contract cofrestradwy, dylai awdurdodau gofio y bydd y gofrestr yn cael ei diweddarau'n awtomatig pan gyhoeddir Hysbysiad Manylion Contract. Felly, rhaid i'r awdurdod ystyried y bydd unrhyw wybodaeth a gyhoeddir yn yr



Hysbysiad Manylion Contractau (gan gynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif) yn cael ei hailadrodd yn y gofrestr contractau.

29. Mae'r swyddogaeth cofrestr contractau ar GwerthwchiGymru yn caniatáu i awdurdodau "guddio" contract o olwg y cyhoedd, ond nid dileu cofnod. Yn lle hynny, trwy guddio'r cofnod perthnasol, dim ond i ddefnyddwyr o'u sefydliad y bydd y contract yn weladwy. Dim ond ar ôl i'r contract gael ei gyhoeddi ar y gofrestr y gellir gwneud hyn, felly bydd yn rhaid i'r awdurdod fynd ar unwaith i mewn i'r gofrestr contractau, cyrchu manylion y contract cofrestradwy hwnnw a'i ddiwygio fel ei fod wedi'i guddio o'r gofrestr gyhoeddus.
30. Gall y gallu hwn i "guddio" lle bo'n briodol yn unol â Deddf PGChC, hefyd gael ei ddefnyddio i "ddileu" cofnod o'r gofrestr yn unol ag adran 40(5) o Ddeddf PGChC trwy ei guddio rhag golwg y cyhoedd.
31. Mae adran 40(5) o Ddeddf PGChC yn nodi mai dim ond ar ôl i'r contract y mae'r cofnod yn ymwneud ag ef ddod i ben neu gael ei derfynu y gall awdurdod ddileu cofnod yn y Gofrestr Contractau. Nid yw'r swyddogaeth 'cofrestr contractau' yn GwerthwchiGymru yn caniatáu i gofnodion gael eu dileu, fodd bynnag, gellir eu "cuddio" (paragraff 29). Mewn perthynas â "contractau sydd wedi dod i ben", unwaith y bydd y dyddiad gorffen wedi mynd heibio, ni fydd y contract yn ymddangos ar y gofrestr contractau yn ddiogel. Fodd bynnag, gall Awdurdodau Contractio ddewis cynnwys contractau sydd wedi dod i ben yn y gofrestr.
32. Fodd bynnag, os yw contract yn cael ei derfynu cyn y dyddiad gorffen, gall yr Awdurdod Contractio ddewis "cuddio" y contract fel nad yw'n ymddangos ar y gofrestr contractau. Os oes rhaid i awdurdod derfynu'r contract, mae'r swyddogaeth 'cofrestr contractau' yn GwerthwchiGymru yn caniatáu i awdurdodau ddiweddarau statws y contract i "wedi terfynu" a hefyd nodi rheswm dros y terfynu.
33. Dylai Awdurdodau Contractio hefyd gadw cofnod o'r rheswm dros derfynu'r contract cofrestradwy yn eu dogfennau rheoli contractau.
34. Os yw awdurdod yn defnyddio'r swyddogaeth cofrestr contractau yn GwerthwchiGymru, dylent hefyd nodi'r rheswm dros derfynu yn erbyn y cofnod yn y gofrestr contractau yn GwerthwchiGymru, yn ogystal â'u cofnodion ar wahân eu hunain.
35. Bydd hyn yn sicrhau bod contractau cofrestradwy o dan y Ddeddf PGChC ond yn cael eu cuddio o olwg y gofrestr contractau cyhoeddus pan fo'n briodol



(megis pan fyddant yn dod i ben neu'n cael eu terfynu). Bydd darparu'r rhesymeg dros ddileu contract hefyd yn galluogi'r Awdurdod Contractio i nodi tystiolaeth bod unrhyw gontract wedi'i guddio o'r gofrestr wedi'i wneud yn unol â Deddf Caffael 2023 ac nid y tu allan i'r mesurau a ddarperir o dan y ddeddfwriaeth gaffael cyhoeddus honno.

36. Wrth derfynu contract cyhoeddus, rhaid i'r Awdurdod Contractio gyhoeddi 'hysbysiad terfynu contract'. Dylai'r awdurdod gyfeirio at yr hysbysiad cyhoeddedig hwn wrth ddiweddarau'r cofnod cysylltiedig yn y gofrestr gontractau, er mwyn sicrhau cysondeb mewn data ar draws y gofrestr gontractau a'r hysbysiad terfynu contract cyhoeddedig.
37. Mae canllawiau wedi'u cyhoeddi ar 'derfynu contract' o dan Ddeddf Caffael 2023, sy'n cwmpasu'r seiliau y gall awdurdod derfynu contract arnynt, a chymhwyso'r hysbysiad terfynu contract.
38. Pan fydd contract wedi dod i ben yn naturiol (hy mae gwasanaethau/gwaith/nwyddau y contract wedi'u cyflawni), dylai'r swyddogaeth 'cofrestr gontractau' yn GwerthwchiGymru ddiweddarau'n awtomatig ar yr amod bod yr awdurdod wedi darparu manylion dyddiad gorffen y contract cywir yn erbyn y cofnod contract cofrestradwy.
39. Mae GwerthwchiGymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â swyddogaeth y gofrestr gontractau. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau i adlewyrchu hysbysiadau Deddf Caffael 2023. Yn y cyfamser, mae'r canllawiau ar gael yma. [Cofrestr Gontractau - GwerthwchiGymru](#)